



ANTUR NANTLLE CYF

GWEITHIO ER LLES YR ARDAL



Adroddiad Blynyddol 2017 – 2018

Cynnwys

GAIR GAN Y CADEIRYDD.....	02
Y BWRDD RHEOLI.....	03
PRIF GYFLAWNIADAU'R FLWYDDYN.....	05
Y PWYLLGOR EIDDO A THENANTIAETH.....	10
Y PWYLLGOR DIWYDIANT AC ECONOMI.....	12
DIWEDDGLO.....	15
CYFRIFON BLYNYDDOL.....	16

Gair gan y Cadeirydd

Mae'n bleser gen i unwaith eto fel Cadeirydd, gyflwyno'r Adroddiad Blyneddol yma sy'n amlinellu gwaith yr Antur am y flwyddyn 2017-2018.

Fel gwelwch o'r adroddiad mae wedi bod yn flwyddyn gyffrous iawn yn hanes yr Antur gyda'r Banc yn agor ei ddrysau i brosiect newydd sbon. Mae wedi bod yn wirioneddol wych gweld cynllun yn troi o fod yn syniad ar bapur i gael ei wireddu, a phobl a busnesau yn elwa. Mae bellach ar agor ac yn barod rydym wedi dod yn rhan bwysig o'r Stryd Fawr yma ym Mhenygroes ac yn hwb i'r holl ardal. Rydym wedi creu dwy swydd rhan amser yn uniongyrchol yma, yn ogystal â'r swyddi yn y Deli.

Mae'r Banc yn gartref ar hyn o bryd i nifer dda o gynhyrchwyr lleol i werthu eu cynnyrch a braf yw gweld gymaint o blant yn mwynhau'r ardal chwarae.

Eto eleni mae Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu wedi parhau i fynd o nerth i nerth, gyda'r llogiadau yn gyson dda ar hyd y flwyddyn. Cawsom newyddion gwych eleni bod y Ganolfan wedi ei dyfarnu i fod yn un o'r deg caban cysgu annibynnol gorau ym Mhrydain. Mae hyn yn bluen yn ein het wedi dim ond tair blynedd wrth y llyw.

Rydym hefyd wrth gwrs yn cael y pleser i gydweithio gyda'n tenantiaid a braf yw gweld eu llwyddiant nhw eto eleni a'r cyfraniad gwych maent yn ei wneud i'r economi lleol. Rydym yn parhau i wella a buddsoddi yn ein hadeiladau sydd yn ei sgil yn gwarchod dros 90 o swyddi lleol.

Ni fyddai yr holl waith yma yn bosib heb waith diflino Robat, Prif Swyddog yr Antur, a mawr yw ein diolch iddo fel cyfarwyddwyr am ei ddyfalbarhad a'i ymroddiad. Rydym yn wirioneddol ddiolchgar iddo am ei waith ar brosiect y Banc eleni.

Fel sefydliad rydym yn cysidro ein hunain yn rhan o'r gymuned a'n holl waith er budd yr ardal. Rydym yn awyddus i wrando ar unrhyw fewnbwn ac awgrymiadau sydd gan bobl y Dyffryn, felly hoffwn ymestyn gwahoddiad i chi gysylltu â'r swyddfa i drafod unrhyw syniad sydd gennych.

Hoffwn gloi drwy ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at waith yr Antur eleni, yn swyddogion, gofalwyr, tenantiaid, gwirfoddolwyr, cyfarwyddwyr, adeiladwyr a thrigolion y Dyffryn.

Edrychwn ymlaen at flwyddyn lwyddiannus arall yn 2018 - 2019.

Diolch yn fawr,

OWAIN ROWLANDS
CADEIRYDD

Y Bwrdd Rheoli



Owain Rowlands
CADEIRYDD



Richard Wyn Huws
IS-GADEIRYDD



Myrddin Williams



Dafydd Owen



Gwynne Williams



Beryl Fretwell



Emrys Jones



John Pritchard




Karen Owen



Dyfed Edwards



Judith Humphreys



Talfryn Griffiths



Eifion Davies



Alun Ffred Jones

Aelodau'r Bwrdd Rheoli

Owain Rowlands CADEIRYDD
Richard Wyn Huws IS-GADEIRYDD
Myrddin Williams
Dafydd Owen
Gwynne Williams
Beryl Fretwell
Emrys Jones
John Pritchard
Karen Owen
Dyfed Edwards
Judith Humphreys
Talfryn Griffiths
Eifion Davies
Alun Ffred Jones

Rheolwr lleoliadau digwyddiadau
Gŵr camera gwobrwyedig a gŵr busnes
Uwch swyddog tai wedi ymddeol
Cyfarwyddwr gwasg a chwmni teithio
Peiriannydd gwresogi wedi ymddeol
Swyddog menter gymdeithasol wedi ymddeol
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol wedi ymddeol
Cyfrifydd wedi ymddeol
Bardd a newyddiadurwraig
Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru
Cynghorydd Penygroes ar Gyngor Gwynedd
Cyfreithiwr a Barnwr wedi ymddeol
Rheolwr cwmni deunyddiau adeiladu
Aelod Cynulliad wedi ymddeol

Ysgrifennydd y Cwmni

Robat Jones

Bancwyr

HSBC, Cangen Caernarfon

Archwilwyr

A. Hughes-Jones, Dyson & Co. (Cyfrifwyr Siartredig), Capel Moreia, South Penrallt, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1NS

Cyfarfodydd

Cynhaliwyd 7 cyfarfod o Fwrdd Rheoli Antur Nantlle yn ystod y flwyddyn. Cyfarfu'r Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth a'r Pwyllgor Diwydiant ac Economi hefyd.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ar nos Lun, Tachwedd 20^{fed} 2017 ym Mhant Du, Penygroes. Yn unol â'r cyfansoddiad bu i bedwar o'r cyfarwyddwyr ymddeol o'r Bwrdd – Gwynne Williams, Dafydd Owen, Emrys Jones ac Eifion Davies. Ail etholwyd y pedwar.

Staff

Robat Jones	Prif Swyddog Antur Nantlle
Bet Hughes	Gofalwraig y Ganolfan Dechnoleg, Swyddfa'r Antur, y Llyfrgell a Siop 22
Nerys Jones	Gofalwraig y Ganolfan Fenter
Nia Noone	Gofalwraig Tŷ Iorwerth a Chapel Salem
Diane Owen	Cynorthwydd Siop Cynnyrch Lleol a Lle Chwarae i Blant, Y Banc
Lona Jones	Cynorthwydd Siop Cynnyrch Lleol a Lle Chwarae i Blant, Y Banc

Prif Gyflawniadau'r Flwyddyn



addysg a HYFFORDDIANT

58 wedi derbyn addysg a hyfforddiant

Gwaith marchnata cynyddol i hybu Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu a Dyffryn Nantlle yn gyffredinol fel cyrchfan i ymwelwyr: Y Ganolfan wedi ei adnabod yn un o'r 10 caban cysgu annibynnol gorau ym Mhrydain. Agor Y Banc i ddenu pobl i Ddyffryn Nantlle er mwyn cryfhau'r economi leol.




Rhoi'r Dyffryn AR Y MAP



Trafod, cydweithio a chefnogi

30 o fudiadau, cynlluniau a gweithgareddau cymunedol wedi cael cefnogaeth; **4,500** wedi cael budd o'r gwasanaethau a gynigir

Buddsoddiad o **£153,000** i greu Y Banc ym Mhenygroes – deli, siop cynnyrch a chreffttau lleol, lle chwarae i blant bach, pwynt gwybodaeth i'r gymuned a phwynt Wi-Fi ffeibr am ddim – hwb i'r gymuned a'r economi leol



CYNNAL, CADW A GWELLA ADEILADAU YN Y GYMUNED

£39,000 o fuddsoddiad gan ddefnyddio crefftwyr lleol ble bynnag bo hynny'n bosibl, fel rhan o raglen waith barhaol i gadw adeiladau lleol mewn cyflwr da er budd ein tenantiaid a'r gymuned

Dros **90** o swyddi wedi eu creu neu eu gwarchod yn ardal Dyffryn Nantlle – cyfraniad sylweddol i'r economi leol



Y Banc

DATBLYGIAD NEWYDD SBON YN NYFFRYN NANTLLE...

3 **menter wedi'u creu** siop cynnyrch a chrefftau lleol, deli a lle chwarae i blant

2 **swydd newydd uniongyrchol** a 5 swydd ychwanegol yn y deli

1 **co-op o gynhyrchwyr lleol** sy'n cydweithio i ddenu pobl i'r ardal drwy greu cynnyrch amrywiol o safon uchel

O FEWN 2 FIS O AGOR...

pobl wedi ymweld â'r Banc
nifer ohonynt wedi teithio yma yn unswydd o du allan i'r ardal

5,000+

incwm wedi ei greu i'r cynhyrchwyr arian sy'n cynnal busnesau bach annibynnol Cymreig

£5,500+

a llawer o gyhoeddusrwydd da i'r ardal yn y wasg ac ar y teledu, sydd o fudd i holl fusnesau Dyffryn Nantlle wrth i ni barhau gyda'n gwaith adfywio er lles yr ardal

Cam wrth gam...

Dan arweiniad Grŵp gwaith Y Banc, a Gadeiriwyd gan Karen Owen, cafodd pob rhan o'r cynllun i drawsnewid llawr gwaelod a seler cyn fanc y Midland ei gynllunio a'i gyflawni yn effeithiol. Rydym yn ddiolchgar i gwmni pensaernïol Ap Thomas Cyf, ein pensaer ar y cynllun, ac i gwmni adeiladu Hefin Williams Cyf, y prif gontractwr, a'r holl is gontractwyr am eu gwaith caled a thrylwyr i greu ased gwerthfawr i'r gymuned yng nghanol pentref Penygroes.



Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu

O NERTH I NERTH... *ystadegau ers agor yn 2015*

£85,118 *

incwm

4,009 **

o westeion



* YN CYNNWYS TAW

** HYD AT DDYDDIAD PARATOI'R ADRODDIAD

**gwaith cynnal a chadw
amrywiol wedi ei wneud**


*i barhau i wella'r cyfleusterau gan
ddefnyddio crefftwyr a chontractwyr lleol*

**cynnig telerau ffafriol i ysgolion a
chymdeithasau lleol ac elusennau**

*fel bod pawb yn cael y cyfle i fwynhau
gwylliau awyr agored*

gweithio mewn partneriaeth

*gyda'r Urdd i ddarparu amrywiaeth
o weithgareddau awyr agored
arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg*



Ennill gwobr...

Eleni, â'r Antur ond wedi bod yn rhedeg Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu ers tair blynedd, cafodd ei ddyfarnu yn un o'r 10 caban cysgu annibynnol gorau ym Mhrydain.

Mae hyn yn cadarnhau ein gweledigaeth wreiddiol bod modd i fentrau cymunedol nid yn unig chware rhan, ond yn wir arwain y ffordd yn y diwydiant twristiaeth yng Nghymru, a sicrhau dyfodol llewyrchus a hyfyrw i'n cymunedau drwy arweiniad gadarn a chreu swyddi lleol.

ALMANAC

Top 10
INDEPENDENT
HOSTELS

Quirky, fun and excellent value, these indie hostels offer a warm welcome after a long day in the hills

There are hundreds of independent hostels, bunkhouses and camping barns across the UK. Many are part of the Independent Hostels UK network (independenthostels.co.uk) where you can search for hostels based on long-distance paths as well as browsing around. And most of the best things about them is that they're independent hostels, not chain ones.

Run by a range of outdoor lovers, the welcome here is just a tip and a bit like the famous 'Tip' (the one in the old school hall) complete with a camp, lake, tennis table, games, coffee and mead or beer or take part in a range of organised activities and events. Accommodation is flexible, with the main bunkhouse sleeping up to 30 and some smaller hostels offering more intimate spaces.

1. NAREDAK OLD SCHOOL, SNOWDONIA, YR EIDREFD DDEU

There's an edge to this historic building, which has been turned into a cosy and comfortable hostel as well as a fully equipped kitchen and lounge. The building is a former school and has been converted into a cosy and comfortable hostel as well as a fully equipped kitchen and lounge.

2. DEPENDENT HOSTEL, LAKE DISTRICT

Make the most of the independent spirit of the hostel, which includes the use of the hostel's own kitchen and lounge. The building is a former school and has been converted into a cosy and comfortable hostel as well as a fully equipped kitchen and lounge.

3. SNOWDONIA BUNKHOUSE, LAKE DISTRICT

The new building, Snowdonia Bunkhouse, is a converted stone barn with a range of accommodation for groups and individuals. The building is a former school and has been converted into a cosy and comfortable hostel as well as a fully equipped kitchen and lounge.

4. BREITON HOSTEL, LAKE DISTRICT

This is one of the best of the best, with a range of accommodation for groups and individuals. The building is a former school and has been converted into a cosy and comfortable hostel as well as a fully equipped kitchen and lounge.

5. SNOWDONIA BUNKHOUSE, LAKE DISTRICT

The new building, Snowdonia Bunkhouse, is a converted stone barn with a range of accommodation for groups and individuals. The building is a former school and has been converted into a cosy and comfortable hostel as well as a fully equipped kitchen and lounge.

6. BREITON HOSTEL, LAKE DISTRICT

This is one of the best of the best, with a range of accommodation for groups and individuals. The building is a former school and has been converted into a cosy and comfortable hostel as well as a fully equipped kitchen and lounge.

7. SNOWDONIA BUNKHOUSE, LAKE DISTRICT

The new building, Snowdonia Bunkhouse, is a converted stone barn with a range of accommodation for groups and individuals. The building is a former school and has been converted into a cosy and comfortable hostel as well as a fully equipped kitchen and lounge.

8. BREITON HOSTEL, LAKE DISTRICT

This is one of the best of the best, with a range of accommodation for groups and individuals. The building is a former school and has been converted into a cosy and comfortable hostel as well as a fully equipped kitchen and lounge.

9. SNOWDONIA BUNKHOUSE, LAKE DISTRICT

The new building, Snowdonia Bunkhouse, is a converted stone barn with a range of accommodation for groups and individuals. The building is a former school and has been converted into a cosy and comfortable hostel as well as a fully equipped kitchen and lounge.

10. BREITON HOSTEL, LAKE DISTRICT

This is one of the best of the best, with a range of accommodation for groups and individuals. The building is a former school and has been converted into a cosy and comfortable hostel as well as a fully equipped kitchen and lounge.

11. SNOWDONIA BUNKHOUSE, LAKE DISTRICT

The new building, Snowdonia Bunkhouse, is a converted stone barn with a range of accommodation for groups and individuals. The building is a former school and has been converted into a cosy and comfortable hostel as well as a fully equipped kitchen and lounge.

12. BREITON HOSTEL, LAKE DISTRICT

This is one of the best of the best, with a range of accommodation for groups and individuals. The building is a former school and has been converted into a cosy and comfortable hostel as well as a fully equipped kitchen and lounge.

13. SNOWDONIA BUNKHOUSE, LAKE DISTRICT

The new building, Snowdonia Bunkhouse, is a converted stone barn with a range of accommodation for groups and individuals. The building is a former school and has been converted into a cosy and comfortable hostel as well as a fully equipped kitchen and lounge.

14. BREITON HOSTEL, LAKE DISTRICT

This is one of the best of the best, with a range of accommodation for groups and individuals. The building is a former school and has been converted into a cosy and comfortable hostel as well as a fully equipped kitchen and lounge.

NEW GEAR! FIRST LOOK AT NEXT YEAR'S KIT

40 YEARS

www.tgomagazine.co.uk

The Great Outdoors

£4.60 | AUGUST 2018

SLEEP IN THE MOUNTAINS

WALKING AND CAMPING THE LAKE DISTRICT FELS

CAMPVAN ADVENTURES ON THE ISLE OF MULL

10 OF THE BEST INDEPENDENT HOSTELS

12 small hills with big views

BRONTË COUNTRY Wuthering Heights walk

PAGES 40-51

8. RHYD DDU OUTDOOR CENTRE, SNOWDONIA

A relatively new addition to the hostelling scene, this historic converted schoolhouse is idyllically located right at the foot of Snowdon. It caters mainly for groups, with six dorm rooms based around a large communal area and pretty garden. Despite the bunkhouse vibe, the facilities are up to date – think drying rooms, equipment storage, hot showers, a well-equipped kitchen and free fibrespeed Wi-Fi. The famous Welsh poet TH Parry Williams was born here, giving history buffs an added incentive to book a stay.

snowdonia-bunkhouse-wales




Y Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth

Cadeirydd: Myrddin Williams

Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth Antur Nantlle sy'n cadw llygad ar holl eiddo'r Antur, yn cynnal, cadw ac uwchraddio er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian i'n tenantiaid. Dyma'r pwyllgor sy'n trin a thrafod ceisiadau am unedau'r Antur a braf yw adrodd fod y mwyafrif helaeth o'n hunedau a'n swyddfeydd yn parhau yn llawn, sydd unwaith eto yn dangos y galw am lefydd gwaith yn ardal Dyffryn Nantlle.

10 adeilad
27 uned waith
20 swyddfa
4 siop
1 canolfan awyr agored
1 llyfrgell
1 ystafell hyfforddiant
1 ystafell gyfarfod
1 iard
1 fflat
1 lle chwarae i blant



Mae unedau gwaith sydd ar osod yn y Dyffryn gan berchnogion eraill yn cynnwys Cyngor Gwynedd hefyd yn llawn, sy'n galonogol iawn.

Mae cyfraddau rhenti swyddfeydd ac unedau busnes yr Antur yn parhau i fod yn gystadleuol a'n telerau yn rhesymol iawn, ac fel rhan o'n polisi i gefnogi menter mae'r Antur yn cynnig hwb i fusnesau newydd sbon drwy roi dau fis o rent yn rhad ac am ddim iddynt.

Mae rhaglen yr Antur o brynu a datblygu eiddo segur yn Nyffryn Nantlle ers 1991 wedi sicrhau fod nifer fawr o adeiladau – portffolio eiddo gwerth dros **£1miliwn** – wedi eu diogelu at ddefnydd busnesau lleol, sy'n hwb mawr i'r gymuned a'r economi.

Rydym o hyd yn awyddus i gydweithio gydag unrhyw gorff neu asiantaeth sy'n gweithredu i hybu menter a chreu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant yn ardal Dyffryn Nantlle, felly mae ein hystafelloedd hyfforddiant a chyfarfod ar gael i unrhyw un sydd eisiau cynnal gweithgareddau o'r math yma. Mae'r ystafell hyfforddiant gyfrifiadurol mewn defnydd rheolaidd gan Addysg Oedolion Cymru sy'n darparu hyfforddiant cyfrifiadurol a digidol, a hefyd gan swyddogion Pecyn 25 / TRAC ar raglen cynhwysedd addysgol i blant a phobl ifanc rhwng 11-24 oed sydd mewn perygl o ddisgyn allan o addysg, hyfforddiant neu waith.

Unwaith eto eleni bu ychydig bach o newid yn rhestr tenantiaid yr Antur, gyda rhai tenantiaid yn symud ymlaen i unedau mwy ac ehangu eu busnesau, tenantiaid newydd yn dod yn eu lle i gychwyn ar eu taith o sefydlu busnes newydd yn Nyffryn Nantlle, a thenantiaid presennol yn parhau i weithio a chynnig eu gwasanaethu i Ddyffryn Nantlle a thu hwnt. Mae'n gyffrous iawn cael gweld a bod yn rhan o'r datblygiadau yma, a braint yw i ni gael chwarae rôl gynorthwyol yn hyn i gyd.

Mae'r Antur yma i greu cyfleoedd
a rhoi seiliau cadarn yn eu lle fel gall
entrepreneuriaid lleol fentro a llwyddo.
Drwy gefnogaeth a chymorth yr Antur mae
cyfleoedd yma yn Nyffryn Nantlle i fusnesau
lleol sefydlu a thyfu. Gyda syniadau, gweledigaeth
a gwaith caled y busnesau yma a chefnogaeth ffyddlon
trigolion lleol iddynt hwythau, rydym gyda'n gilydd yn
cydweithio tuag at y nod o adfywiad economaidd yr ardal.

Mae'n bwysig iawn nodi cyfraniad staff glanhau'r Antur sy'n gofalu am yr eiddo sef Bet Hughes (Gofalwraig y Llyfrgell, y Ganolfan Dechnoleg, Siop 22 a Swyddfa'r Antur), Nerys Jones (Gofalwraig y Ganolfan Fenter) a Nia Noone (Gofalwraig Tŷ Iorwerth a Chapel Salem). Diolch yn fawr am eich gwaith caled yn cadw'r adeiladau yn dwt ac yn daclus er budd y tenantiaid a'u cwsmeriaid unwaith eto eleni.

Braf iawn hefyd yw cael cyflwyno dau aelod newydd o staff sef Diane Owen a Lona Jones sy'n rhedeg y siop a'r lle chwarae i blant yn Y Banc. Croeso atom, a diolch yn fawr am eich gwaith trefnus a thrwyadl.

Y Pwyllgor Diwydiant ac Economi

Cadeirydd: Dafydd Owen

Is-grwpiau Pwyllgor Diwydiant ac Economi Antur Nantlle sydd yn cyfarfod i drin a thrafod cynlluniau economaidd a chwilio am brosiectau newydd er budd Dyffryn Nantlle.

Mae hi'n parhau i fod yn gyfnod anodd ac ansicr iawn, ond er hyn braf yw adrodd ein bod wedi llwyddo i ddenu grantiau sylweddol i Ddyffryn Nantlle eleni i'n galluogi i wneud gwaith pellach tuag at y nod o welliant economaidd i'r ardal.

Yr ydym o hyd yn barod i drafod gydag unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno gyda ni neu sydd â gweledigaeth ac yn barod i weithio o'i wirfodd er lles yr ardal.

Yn ogystal â rhedeg ein safleoedd presennol, cynnal cyrsiau a rhedeg Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu, eleni mae ein prif ffocws wedi bod ar brosiect Y Banc.

Y Banc: gwireddu cynllun cyffrous yn y gymuned

Datblygiad diweddaraf yr Antur yw Y Banc ym Mhenygroes, ac rydym yn falch iawn ohono.

Ar ôl blynyddoedd o waith ymchwil, cynllunio, trafod a pharatoi, gyda diolch i grantiau o gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Magnox, yn ogystal â buddsoddiad ariannol gan yr Antur, llwyddwyd i ailagor llawr gwaelod 39 Heol y Dŵr - oedd wedi eistedd yn wag ers i'r HSBC gau ym Mehefin 2014 - fel Deli, Siop cynnyrch a chrefftau lleol a Lle chwarae i blant.

Bwriad y cynllun o'r cychwyn, yn ogystal â dod a gofod gwag yng nghanol y pentref yn ôl i ddefnydd, oedd creu Hwb i'r gymuned yng nghanol pentref Penygroes, a rhoi Hwb i'r economi leol drwy greu lleoliad a chynllun i alluogi crefftwyr a chynhyrchwyr lleol i gydweithio, arddangos a gwerthu eu cynnyrch sydd i gyd o safon uchel.



Mae'r Banc ar ei newydd-wedd yn cyfuno...

- Deli sy'n gweini bwyd lleol, iach a danteithion blasus o bob math;
- Gofod chwarae i blant bach a man cyfarfod i rieni yng nghanol y pentref;
- Siop cynnyrch a chrefftau lleol sy'n cadw amrywiaeth eang o gynnyrch Dyffryn Nantlle;
- Co-op cynhyrchwyr Dyffryn Nantlle sy'n gweithio i gryfhau'r economi leol drwy a) ehangu eu busnesau a chodi gwerthiant a b) denu rhagor o bobl i'r ardal i fwynhau cynnyrch Dyffryn Nantlle a thra yma ymweld gyda nifer o fusnesau bach eraill yr ardal;
- Pwynt Wi-Fi ffeibr am ddim i'r gymuned.

Crëwyd menter newydd sbon yn y Deli gan fam a mab lleol sef Iwan ac Amanda Williams, tenantiaid diweddaraf yr Antur. Mae'r Deli yn barod wedi creu cyfleoedd cyflogaeth i bump o bobl, ac yn denu pobl i Benygroes bob dydd.

Ers y cychwyn cyntaf mae'r Deli wedi bod yn hynod o boblogaidd a phrysur gyda phob math o fwydydd iach a diodydd blasus ar gael. Mae'r holl fwydydd werth eu gweld (â'u blasu), a'r prydau arbennig sydd ar gael yn ddyddiol wastad yn denu adborth da iawn.



Mae'n braf iawn gweld y gymuned (ac ambell un o enwogion yr ardal) yn dod at eu gilydd o amgylch y bwrdd dros baned yn Y Banc, a gweld y plant (a'r rhieni a neiniau a theidiau!) yn mwynhau'r lle chwarae.



Bryn Terfel, Iwan (Deli'r Banc) a Robot (Antur Nantlle)

Mae'r siop yn cael ei redeg ar fodel arloesol, gyda'r nod o alluogi'r busnesau sy'n rhan o'r cynllun ehangu mewn modd cynaliadwy a hyfw i'r dyfodol.

Yr Antur sy'n rhedeg y siop o ddydd i ddydd, gan gyflogi dau aelod o staff profiadol i wneud hynny. Mae cynnyrch amrywiol y cynhyrchwyr yn cael ei werthu yn Y Banc gan eu gadael yn rhydd i ganolbwyntio ar greu. Mae'r Antur yn codi ffi gwasanaeth isel i fod yn rhan o'r cynllun a'r holl incwm o werthu'r cynnyrch yn cael ei dalu yn llawn i'r cynhyrchwyr. Felly siop y cynhyrchwyr yw Siop Y Banc mewn gwirionedd, ond heb y costau na'r cyfyngiad amser sydd fel arfer yn perthyn i hynny.

Y gobaith i'r dyfodol, yn enwedig gydag un llygad ar y cais presennol i adnabod chwareli llechi Gogledd Cymru fel safle Treftadaeth y Byd gydag UNESCO, a'r manteision twristiaeth ddaw yn sgil hynny, yw y bydd y cynhyrchwyr yn symud ymlaen i agor eu siopau eu hunain yn y Dyffryn, a chreu cyfleoedd cyflogaeth ychwanegol yn ogystal â denu mwy fyth o bobl i Ddyffryn Nantlle i gefnogi busnesau bach yr ardal.



Diane Owen a Lona Jones, sy'n rhedeg y Siop Cynnyrch Lleol a Lle Chwarae i Blant yn Y Banc

Deli, siop cynnyrch lleol, 'co-op' cynhyrchwyr lleol, man chwarae i blant bach, pwynt Wi-Fi ffeibr am ddim

Diwedd glo

Bu'r flwyddyn yma yn un fawr i'r Antur ac yn un pwysig i'r Dyffryn. Gwireddwyd y rhan helaeth o'n cynlluniau am y flwyddyn drwy:

- ddatblygu'r banc i greu ased newydd ac amrywiol i'r gymuned;
- ddenu rhagor o ymwelwyr i'r Dyffryn a datblygu'r diwydiant twristiaeth lleol; a
- gwasanaethu ein tenantiaid a chynnal a chadw ein heiddo.

Wrth edrych yn ôl ar y gwaith â wnaed eleni, rydym yn ymfalchïo yn yr hyn a gyflawnwyd er lles yr ardal. Mae bwrlwm amlwg wedi ei greu a nifer o ddatblygiadau eraill yn yr ardal ar y gweill yn sgîl hyn. Gobeithio bydd y momentwm yma yn parhau ac mai hwn fydd Y cyfle y mae Dyffryn Nantlle ei angen.

Rydym yn byw mewn cyfnod heriol ac ansicr iawn. Mae'r wasgfa ar gyllid, gwasanaethau ac adnoddau yn gyffredinol yn amlwg ac yn niweidiol iawn i gymunedau bach a mawr ar hyd a lled y wlad.

O ran y Dyffryn hwn, mae'r Antur eto eleni wedi gorfod gweithio yn gynnil i gynnal ein gwasanaethau craidd er lles trigolion lleol, gydag ond un swyddog. Wrth ddyfalbarhau gyda'n gwaith a pharhau i ymchwilio am gyfleon newydd i'r ardal rydym unwaith eto yn edrych ymlaen at y flwyddyn sydd o'n blaenau ac i barhau i wneud gwahaniaethau positif er lles ardal Dyffryn Nantlle.

Yr un yw nod yr Antur ers ei sefydlu ym 1991: datblygu cynlluniau ddaw a gwelliannau economaidd a chymdeithasol i ardal Dyffryn Nantlle a chreu cyfleoedd i bobl leol fentro eu hunain.

Rydym wastad yma i wrando a thrafod syniadau: gweithio gyda'n gilydd fel un yw'r ffordd orau i warchod a gwella ein cymunedau. Byddwn yn falch o glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno â ni i weithio er lles yr ardal. Mae'r drws ar agor i bawb.

DIOLCH

Cyfrifon Blynyddol

ANTUR NANTLLE CYF.

Rhif Y Cwmni : 2618216

CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU MAWRTH 31, 2018

A. HUGHES JONES DYSON A'U CWMNI
CYFRIFWYR SIARTREDIG
CAERNARFON

ANTUR NANTLLE CYF.

Cynnwys	Tudalen
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	1
Datganiad O Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr	2
Adroddiad Yr Archwilywyr	3 - 4
Datganiad Incwm	5
Mantolen	6
Nodiadau	7- 9
Cyfrif Incwm a Gwariant Manwl	10

ANTUR NANTLLE CYF.
Adroddiad Y Cyfarwyddwyr Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2018

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol ynghyd a'r cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31, 2018.

Prif Weithgareddau

Prif weithgaredd y cwmni yw hybu gweithgareddau sydd er lles economaidd, cymdeithasol ac yr amgylchedd yn Dyffryn Nantlle.

Aelodau'r Bwrdd Rheoli

Aelodau'r Bwrdd Rheoli yn ystod y flwyddyn oedd:

Talfryn Griffiths
John Pritchard
Dafydd Owen
Dyfed Wyn Edwards
Gwynne Williams
Eifion Wyn Davies
Judith Humphreys
Alun Ffred Jones

Beryl Fretwell
Richard Wyn Huws
Emrys Jones
Myrddin Williams
Craig ab Iago (Ymddiswyddodd 6.10.2017)
Owain Rowlands
Karen Owen

Datganiad O'r Datgeliad Gwybodaeth i'r Archwilwyr

Cyn belled a mae'r Cyfarwyddwyr yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth sydd yn berthnasol i'r archwiliad (fel diffiniwyd gan Adran 418 o Ddeddf Cwmnïau 2006) nad yw archwilwyr y Cwmni yn ymwybodol ohono, ac mae pob cyfarwyddwr wedi cymeryd y camau y dylent fel cyfarwyddwyr i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol i'r archwiliad ac i sefydlu y bod archwilwyr y Cwmni yn ymwybodol o'r wybodaeth yma.

Archwilwyr

Mae A. Hughes Jones Dyson a'u Cwmni wedi datgan eu parodrwydd i barhau yn eu swydd.

Mae'r adroddiad wedi cael ei baratoi ar sail y darpariathau arbennig sydd yn Rhan VII o Ddeddf Cwmnïau 2006 yn ymwneud a cwmnïau bach.

Dyddiad: 19-7-2018

Owain G. Rowlands
Drwy orchymyn y bwrdd

ANTUR NANTLLE CYF.
Datganiad O Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi adroddiad y Cyfarwyddwyr ar datganiadau ariannol sy'n cydymffurfio gyda'r gyfraith a rheolau perthnasol.

O dan y Ddeddf Cwmnïau y mae yn ofynnol i'r Cyfarwyddwyr baratoi cyfrifon pob blwyddyn. O dan y ddeddf mae'r Cyfarwyddwyr wedi ethol i baratoi y datganiadau ariannol yn unol a Safonau Cyfrifyddol y Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddol sydd yn Gyffredinol Dderbyniol o fewn y Deyrnas Unedig). O dan gyfraith cwmnïau ni ddyliau y Cyfarwyddwyr gymeradwyo y datganiadau ariannol onid eu bod wedi eu bodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r cwmni ac o'r gweddill neu'r diffyg am y cyfnod. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol mae'n ofynol i'r cyfarwyddwyr:

- ddewis polisiau cyfrifyddol priodol a'u defnyddio'n gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol;
- datgan os yw'r polisiau cyfrifyddol wedi eu dilyn, neu datgelu ac esbonio unrhyw ymadawiad materol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar y sail busnes byw os nad ydyw hi yn amhriodol i dybio fydd y cwmni yn parhau mewn busnes.

Mae cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol sy'n dangos safle ariannol y cwmni a'u galluogi i sicrhau fod y cyfrifon yn cydsynio efo Deddf Cwmnïau 2006.

Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni ac felly yn gyfrifol am rwystro a datgelu twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Dyddiad: 19-7-2018

Quain G. Reuland
Drwy orchymyn y bwrdd

Adroddiad Yr Archwilyr Annibynnol At Aelodau Antur Nantlle Cyf.

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Antur Nantlle Cyf (y 'Cwmni') am y flwyddyn yn diwedd Mawrth 31 2018 sydd yn cynnwys y Datganiad Incwm, Y Fantolen ar nodiadau i'r Datganiadau Ariannol, gan gynnwys crynodeb o'r polisiau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi y cyfrifon yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 'Y Safon Adrodd Ariannol perthnasol i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon' (Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbyniwyd yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig).

Mae'r adroddiad hwn wedi ei greu i aelodau y cwmni, fel corff, ac yn unol a Pennod 3, Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae ein gwaith archwilio wedi ei ymgymryd fel y gallwn adrodd i aelodau'r cwmni y materion hynny y mae'n ofynnol i ni adrodd iddynt mewn adroddiad archwilyr ac i ddim pwrpas arall.

Hyd at yr eithaf a ganiateir trwy gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r cwmni ac aelodau'r cwmni fel corff am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

Yn ein barn mae'r cyfrifon yn:

- rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r cwmni ar Fawrth 31, 2018 ac o'r gweddill ar gyfer y flwyddyn oedd yn terfynu y pryd hynny;
- wedi eu paratoi yn unol ac Arferion Cyfrifyddol sydd yn Gyffredinol Dderbyniol o Fewn y Deyrnas Unedig
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag amodau Deddf Cwmnïau 2006.

Sail Ein Barn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs (DU)) a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran cyfrifoldebau'r Archwilyr ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol.

Rydym yn annibynnol o'r cwmni yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol ar gyfer sail ein barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes byw

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae'r ISAs (DU) yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi gwybod i chi lle:

- nid yw defnydd y cyfarwyddwyr o sail busnes byw ar gyfer paratoi y datganiadau ariannol yn briodol ; neu
- nid yw'r cyfarwyddwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol sydd yn achosi amheuaeth arwyddocaol am allu'r cwmni i barhau i fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes byw am gyfnod o leiaf deuddeg mis o'r dyddiad y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Gwybodaeth arall

Y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr, ond nid

yw'n cynnwys y datganiadau ariannol ac ein Adroddiad yr Archwilyr arno.

Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac nid ydym yn mynegi unrhyw fath o farn sicrwydd arno.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth a gasglwyd yn yr archwiliad neu fel arall ymddengys ei fod wedi ei gamddatganu'n sylweddol. Os, yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi'i berfformio, rydym yn casglu bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni roi gwybod am y ffaith honno. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill a ragnodir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael ei baratoi yn gyson â'r datganiadau ariannol; a
- Paratowyd Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Adroddiad Yr Archwilwyr Annibynnol At Aelodau Antur Nantlle Cyf.

Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt mewn eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y cwmni a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi nodi

camddatganiadau perthnasol yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Nid oes gennym ddim l'w adrodd ar y materion canlynol ble mae'r Ddeddf Cwmnïau 2006 yn ein gofyn i ni adrodd i chi os yn ein barn:

- nad yw'r cwmni wedi cadw cofnodion cyfrifyddol digonol, neu nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac eglurhad oddi wrth ganghennau nad ydym wedi ymweld a hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gytun ar cofnodion ariannol; neu
- bod datguddiadau sy'n ofynol dan gyfraith cwmnïau yn berthnasol i enillion cyfarwyddwyr heb eu datgelu; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac eglurhad sydd ei angen er mwyn cwblhau ein archwiliad; neu
- nid oedd y cyfarwyddwyr yn deilwng i baratoi'r cyfrifon ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn unol a rheolau cwmnïau bach ac i gymeryd mantais o'r eithriad i gwmnïau bach or gofyniad i baratoi Adroddiad Strategol neu wrth baratoi adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Fel yr eglurwyd yn fwy llawn yn y datganiad o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr ar dudalen 2, y cyfarwyddwyr sydd yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn dangos darlun gwir a theg, ac am reolaeth fewnol o'r fath a benderfynir gan y

cyfarwyddwyr yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni i barhau fel busnes byw gan ddatgelu materion ble'n berthnasol. Materion cysylltiedig i'r sail busnas byw ar defnydd o'r sail cyfrifyddu busnas byw oni bai bod y cyfarwyddwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni neu dod a gweithrediadau i ben neu os does dim dewis realistig arall ond i wneud hynny.

Ein cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol

Ein amcanion yw casglu sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi Adroddiad yr Archwilwyr sy'n cynnwys ein barn.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad sylweddol pan fydd yn bodoli.

Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu wallau ac fe'u hystyrir yn sylweddol pe bai, yn unigol neu ar y cyfan, y gellid disgwyl

yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd a gymerwyd gan defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol wedi ei leoli ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad yma yn ran o Adroddiad yr Archwilwyr



Dyddiad: 19-7-2018

Mr Brian Hughes (Prif Archwiliwr Statudol)

ar ran A. Hughes Jones Dyson a'u Cwmni

Archwilwyr Statudol a Cyfrifwyr Siartredig

Capel Moreia, South Penrallit, Caernarfon, Gwynedd LL55 1NS

ANTUR NANTLLE CYF.
Datganiad Incwm Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2018

	Nodiadau	2018	2017
		£	£
Incwm		143,449	132,024
Gwariant		<u>(121,405)</u>	<u>(134,693)</u>
Incwm Sy'n Weddill	2	22,044	(2,669)
Llog Derbyniadwy		33	37
Llog a Dalwyd		<u>(3,959)</u>	<u>(4,309)</u>
Gweddill Cyn Trethiant		18,118	(6,941)
Trethiant	3	<u>(3,055)</u>	<u>2,618</u>
Gweddill Ar Ol Trethiant		15,063	(4,323)
Gweddill Ddygwyd Ymlaen		<u>152,424</u>	<u>156,747</u>
Gweddill Cariwyd Ymlaen		<u>167,487</u>	<u>152,424</u>

ANTUR NANTLLE CYF
Mantolen Ar Fawrth 31, 2018

	Nodiadau	2018		2017	
		£	£	£	£
Asedau Sefydlog					
Asedau Cyffryddadwy	5		689,542		714,349
Asedau Cyfredol					
Dyledwyr	6	11,821		13,591	
Arian Yn Y Banc Ac Mewn Llaw		<u>106,270</u>		<u>87,221</u>	
		<u>118,091</u>		<u>100,812</u>	
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn y flwyddyn	7	<u>(43,371)</u>		<u>(35,565)</u>	
Asedau Cyfredol Net			<u>74,720</u>		<u>65,247</u>
Cyfanswm Asedau Llai					
Rhwymedigaethau Cyfredol			764,262		779,596
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn					
Croniadau Ac Incwm Gohiriedig	8		(149,976)		(173,906)
Benthyciadau banc	9		(51,906)		(57,844)
Treth Gohiriedig			(1,947)		(2,476)
			<u>560,433</u>		<u>545,370</u>
Cronfeydd					
Cronfa Eiw a Cholled			167,487		152,424
Cronfa Ailbriso	10		<u>392,946</u>		<u>392,946</u>
			<u>560,433</u>		<u>545,370</u>

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi ar sail y darpariaethau arbennig sydd o fewn Rhan 15 o Ddeddf Cwmiau 2006 yn ymwneud a cwmnïau bach.

Owain G. Pender Cyfarwyddwr

John M. Pender Cyfarwyddwr

19-7-2018 Dyddiad

Rhif Cwmni: 2618216

ANTUR NANTLLE CYF.
Nodiadau i'r Cyfrifon Am Y Flwyddyn Yn Diwedd Mawrth 31, 2018

1 Polisiau Cyfrifyddol

Y sail gyfrifyddol

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol a gofynion Adran 1A "Unedau Llai" o Safon Adrodd Ariannol 102 "Y Safon Adrodd Ariannol perthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon" a Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r cyfrifon wedi ei paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol.

Asedau sefydlog cyffyrddadwy

Fe gynhwysir asedau sefydlog cyffyrddadwy yn ol eu cost.

Fe ddibrisir yr asedau dros amcangyfrifiad o'u hoes economaidd defnyddiol fel a ganlyn:

- Tir ac adeiladau - 4%/5% o'r gost pob blwyddyn
- Offer - 20% drwy'r dull mantol yn lleihau
- Cyfrifiaduron - 25% drwy'r dull mantol yn lleihau

Mae gwariant ar itemau cyfalaf llai £100 yn cael ei trin fel gwariant yn y flwyddyn.

Grantiau

Mae grantiau sy'n ymwneud ag asedau sefydlog yn cael eu gosod mewn cyfrif incwm gohiriedig. Fe ryddheir swm yn flynyddol i'r cyfrif incwm a Gwariant sy'n cyfateb i'r dibrisiant a ddarparwyd ar gyfer yr asedau perthnasol.

Trethiant

Mae trethiant ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn cynnwys treth gyfredol a gohiriedig. Cydnabyddir treth yn y datganiad incwm, ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud ag eitemau a gydnabyddir fel incwm cynhwysfawr arall neu yn uniongyrchol mewn ecwiti.

Nid yw asedau a rhwymedigaethau trethiant cyfredol neu ohiriedig yn cael eu disgowntio. Cydnabyddir trethiant cyfredol fel y swm treth sy'n daladwy gan ddefnyddio'r cyfraddau treth a chyfreithiau a ddeddfwyd neu a ddeddfwyd yn sylweddol erbyn dyddiad y fantolen.

Treth Ohiriedig

Cydnabyddir treth ohiriedig o ran yr holl wahaniaethau amser sydd wedi tarddu ond heb eu gwrthdroi eto ar ddyddiad y fantolen.

Mae gwahaniaethau amseru'n codi o gynnwys incwm a threuliau mewn asesiadau treth mewn cyfnodau gwahanol i'r rhai y maent yn cael eu cydnabod mewn datganiadau ariannol. Caiff treth ohiriedig ei fesur gan ddefnyddio cyfraddau treth a chyfreithiau a ddeddfwyd erbyn diwedd y flwyddyn a disgwylir iddynt fodoli pan fydd y gwahaniaethau amseru yn gwrthdroi.

Archwilwyr

Yn gyffredin a nifer o fusnesau o'n maint a natur, rydym yn defnyddio ein archwilwyr i baratoi a chyflwyno ffurflenni priodol i'r awdurdodau treth ag i'n cynorthwyo gyda'r gwaith o baratoi y datganiadau ariannol.

2 Incwm Sy'n Weddill

	2018	2017
	£	£
Mae'r incwm sy'n weddill ar ol;		
<i>Rhoi credyd am;</i>		
Incwm Gohiriedig a ryddhawyd	<u>23,930</u>	<u>24,497</u>
<i>Ac ar ol codi am:</i>		
Dibrisiant	25,195	21,502
Archwilio	<u>2,260</u>	<u>2,150</u>

ANTUR NANTLLE CYF.
Nodiadau i'r Cyfrifon Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2018

3	Treth Gorfforaeth	2018	2017
		£	£
	Treth Ohiriedig	(529)	(577)
	Darpariaeth am y Flwyddyn	<u>3,584</u>	<u>(2,041)</u>
		<u>3,055</u>	<u>(2,618)</u>
4	Gweithwyr		
	Ar gyfartaledd, roedd nifer y gweithwyr cyflogedig yn 4.		
5	Asedau Sefydlog Cyffyrddadwy		
	Tir Rhydd-ddaliad		
	Ac Adeiladau	Offer	Cyfanswm
	£	£	£
	Ar Ebrill 1af 2017	743,831	776,323
	Ychwanegiadau	-	388
	Ar Fawrth 31 2018	<u>743,831</u>	<u>776,711</u>
	Dibrisiant		
	Ar Ebrill 1af 2017	41,932	61,974
	Codiant am y flwyddyn	22,603	25,195
	Ar Fawrth 31 2018	<u>64,535</u>	<u>87,169</u>
	Gwerth Ar Bapur Net		
	Ar Fawrth 31 2018	<u>679,296</u>	<u>689,542</u>
	Ar Fawrth 31 2017	<u>701,899</u>	<u>714,349</u>
6	Dyledwyr	2018	2017
		£	£
	Dyledwyr Eraill	3,539	3,642
	Treth Gorfforaeth	-	2,041
	Rhagdaliadau ac incwm a gronwyd	<u>8,282</u>	<u>7,908</u>
		<u>11,821</u>	<u>13,591</u>
7	Credydwy'r: symiau sy'n ddyledus o fewn y flwyddyn		
		£	£
	Benthyciad banc	5,937	5,564
	Credydwy'r eraill	28,329	27,553
	Treth Gorfforaeth	3,596	-
	TAW	<u>5,509</u>	<u>2,448</u>
		<u>37,862</u>	<u>35,565</u>

ANTUR NANTLLE CYF.
Nodiadau i'r Cyfrifon Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2018

8	Croniadau Ac Incwm Gohiriedig		
		£	
	Ar Ebrill 1af, 2017	173,906	
	Swm a Rhyddhawyd	23,930	
	Ar Fawrth 31, 2018	<u>149,976</u>	
9	Credydwy: Symiau sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn		
		2018	2017
		£	£
	Benthyciadau Banc	<u>51,908</u>	<u>57,844</u>
	Dyled yn daladwy mewn mwy na blwyddyn		
	ad-daladwy rhwng un a phum mlynedd	28,000	26,993
	ad-daladwy ar ol phum mlynedd	<u>23,908</u>	<u>30,851</u>
		<u>51,908</u>	<u>57,844</u>
10	Cronfeydd		
		Cronfa	
		Gwerth Teg	
		£	
	Ar 1af Ebrill 2017 ac		
	Mawrth 31 2018	<u>392,946</u>	

ANTUR NANTLLE CYF.
Cyfrif Incwm A Gwariant Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2018

	2018		2017	
	£	£	£	£
Incwm				
Gwasanaethau		11,486		9,780
Rhent		99,428		99,220
Ffioedd Rheoli		1,322		7,706
Canolfan Rhyd Ddu		30,973		15,228
Incwm Arall		<u>240</u>		<u>90</u>
		143,449		132,024
 Gwariant				
Grantiau Cyfalaf Yn Cael Eu Rhyddhau	(23,930)		(24,497)	
Cyflogau	42,437		40,790	
Costau Pensiwn	1,273		1,078	
Costau Teithio	629		636	
Costau Rhyd Ddu	6,720		4,807	
Costau Swyddfa	817		590	
Llogi Offer	534		872	
Ffon	2,844		1,822	
Hysbysebu	2,055		1,804	
Costau Cynnal A Chadw	32,520		56,654	
Gwres a Goleuo	8,395		7,284	
Trethi	1,419		3,132	
Yswiriant	10,087		10,049	
Costau Archwilio	2,260		2,150	
Costau Proffesiynol	5,231		3,302	
Costau Banc	966		912	
Manion	1,953		1,806	
Dibrisiant Ar Adeiladau	22,603		18,349	
Dibrisiant Ar Offer	<u>2,592</u>		<u>3,153</u>	
		121,405		134,693
Gweddill/(Colled) am y flwyddyn		<u>22,044</u>		<u>(2,669)</u>



Swyddfa 8
Tŷ Iorwerth
39 Heol y Dŵr
Penygroes
Gwynedd
LL54 6LW

01286 882688
post@anturnantlle.com

www.anturnantlle.com
www.canolfan-rhyd-ddu.cymru
www.facebook.com/anturnantlle



**Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig:**
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
**European Agricultural Fund for
Rural Development:**
Europe Investing in Rural Areas



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

